# POLISI GWISG ACADEMAIDD

Mae'r seremoni raddio'n ddigwyddiad academaidd ffurfiol. Rhaid i bob myfyriwr sy'n mynychu'r seremoni raddio wisgo'r wisg academaidd gywir ar gyfer eu dyfarniad.

Rhoddir manylion am y wisg academaidd ar gyfer dyfarniadau'r Brifysgol yn y tabl isod:

| **Dyfarniadau** | **Gŵn** | **Cwfl** | **Cap** |
|---|---|---|---|
| Tystysgrif Raddedig, Tystysgrif Ôl-raddedig, Tystysgrif Addysg Ôl-raddedig | Gŵn du israddedigion | Cwfl coch Caerdydd ar batrwm Rhydychen, a leinin o sidan beige. | Cap sgwâr du cyffredin. |
| Diploma i Raddedigion, Diploma Ôl-raddedig | Gŵn du israddedigion | Cwfl coch Caerdydd ar batrwm Rhydychen, a leinin o sidan glas golau. | Cap sgwâr du cyffredin. |
| Baglor | Gŵn du israddedigion | Cwfl coch Caerdydd ar batrwm Rhydychen, **a leinin o sidan gwyn** meddal | Cap sgwâr du cyffredin. |
| Baglor Estynedig a Meistr Cyfunol | Gŵn du israddedigion | Cwfl coch Caerdydd ar batrwm Rhydychen, a leinin o sidan gwyn meddal ac iddo ymyl o las brenhinol | Cap sgwâr du cyffredin. |
| Meistr a Addysgir | Gŵn du Meistr. | Cwfl coch Caerdydd ar batrwm Rhydychen, a leinin o sidan glas brenhinol | Cap sgwâr du cyffredin. |
| Meistr Ymchwil | Gŵn du Meistr. | Cwfl coch Caerdydd ar batrwm Rhydychen, a leinin o sidan leilac | Cap sgwâr du cyffredin. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Doethuriaeth | Gŵn coch Caerdydd â llewys llawn a ffesinau a leinin llawes lliw gwyrdd y goedwig, ag ymyl llwyd arian | Cwfl coch Caerdydd ar batrwm Rhydychen, a leinin o sidan gwyrdd y goedwig ac iddo ymyl o lwyd arian | Boned felfed ddu â thasel sidan du ac arian. |
| Doethuriaeth Uwch | Gŵn coch Caerdydd â llewys llawn a ffesinau a leinin llawes lliw aur golau, ag ymyl llwyd arian | Cwfl coch Caerdydd ar batrwm Rhydychen, a leinin o sidan aur golau ac iddo ymyl o lwyd arian | Boned felfed ddu â thasel sidan du ac arian |